# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 29 Mehefin 2004

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.
Croesawyd Llywydd ac Aelodau Pwyllgor Amaeth Cynulliad Rhanbarthol Toscana gan y Llywydd.

**2.58pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu’r datganiad busnes.
Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 55
Cytunwyd ar y datganiad busnes.

**3.07pm**
**Pwynt o Drefn**
**Jenny Randerson** ar ddefnyddio’r weithdrefn weithredol.

***NDM2018 – Hysbysiad o dan Reol Sefydlog 24.25(ii) a gyflwynwyd ar 23 Mehefin 2004. Yn unol â Rheol Sefydlog 24.25(ii), mae 3 Aelod wedi ei gwneud yn ofynnol bod y Gorchymyn drafft isod, a gynigiwyd yn y cynnig NDM2009, yn cael ei ystyried yn llawn gan y Cynulliad. Felly ni chafodd y cynnig isod ei gynnig.***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**
*NDM2009 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:
1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Mehefin 2004 ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Mehefin 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy’r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Mehefin 2004.

**3.11pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004**
*NDM2010 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM2011 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Mehefin 2004 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2004; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 i Brif Weinidog Cymru –** ***Dim cynnig wedi ei gyflwyno***

**3.34pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**
*NDM2012 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM2013 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2004

mewn perthynas â'r rheoliadau drafft Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2004; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2004

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**
**Cymerodd y Dirprwy Lywydd y gadair**

**3.37pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio**
*NDM2014 Janet Davies (Gorllewin De Cymru)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 6.6 (vi), yn nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio am y cyfnod 2003 - 2004, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.09pm**
**Dadl ar Atal Llifogydd**
*NDM2015 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yn croesawu'r ymgynghoriad ar Drefniadau Atal Llifogydd yng Nghymru - Y Dyfodol
*Anfonwyd copi o'r papur ymgynghori "**Trefniadau Atal Llifogydd yng Nghymru - Y Dyfodol**" drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Mehefin 2004.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn gofyn bod y trefniadau atal llifogydd yng Nghymru yn y dyfodol yn dwyn i ystyriaeth effaith y cynnydd yn y gollyngiadau carbon ar feteoroleg Cymru.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Caiff anghenion y Canolbarth o ran atal llifogydd eu cydnabod yn llawn mewn unrhyw drefniadau newydd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**Y cynnig**
O Blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5:05pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 30 Mehefin 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 25 Mehefin 2004**

- Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Adnewyddu Tai y Sector Preifat yng Nghymru - LD3036

**Dogfennau a Osodwyd ar 23 Mehefin 2004**

- Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004 Memorandwm Cywiriadau - LD3037
- Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) (Diwygio) 2004 - Memorandwm Cywiriadau - LD3038
- Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2004 – Memorandwm Cywiriadau - LD3039
- Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 14) (Cymru) 2004 - Memorandwm Cywiriadau - LD3040
- Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaeth Bysiau (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD3041
- The Bus Service Operators Grant (Amendment) (Wales) Regulations 2004 - Regulatory Appraisal - LD3042 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

- [ ] Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004 - LD3043
- [ ] Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004 - LD3044

**Dogfennau a Osodwyd ar 22 Mehefin 2004**

- [ ] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD3031
- [ ] The Wales Centre for Health (Constitution, Membership and Procedures) Regulations 2004 - Regulatory Appraisal - LD3032 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- [ ] Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004 - Memorandwm Cywiriadau - LD3033
- [ ] Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004 - Memorandwm Cywiriadau - LD3034
- [ ] Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2004 – Memorandwm Cywiriadau - LD3035

**Dogfennau a Osodwyd ar 21 Mehefin 2004**

- [ ] Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio i'r Cyfarfod Llawn 2003 - 2004 - LD3030

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 22 Mehefin 2004**

- [ ] LC915 Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004 - LD3022
- [ ] LC916 Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004 - LD3023
- [ ] LC917 Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD3024
- [ ] LC918 Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD3025
- [ ] LC919 Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 14) (Cymru) 2004 - LD3026
- [ ] LC920 Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD3027
- [ ] LC921 Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004 - LD3028
- [ ] LC922 Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2004 - LD3029